RHEOLIADAU CAMYMDDYGIAD ANACADEMAIDD 2024/2025

Teitl: Rheoliadau Camymddygiad Anacademaidd					
Fersiwn	**Dyddiad cyhoeddi**	**Disgrifiad o'r Diwygiad**	**Awdur**	**Cymeradwywyd Gan a Dyddiad**	**Dyddiad yr Adolygiad Nesaf**
1.0	Medi 2024	Fformat a chynnwys diwygiedig	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd	Mehefin 2025

Cynnwys

ADRAN UN: CYFLWYNIAD 2

ADRAN DAU: EGWYDDORION RHEOLEIDDIOL 3

Egwyddorion Cyffredinol 3

Recordiadau cudd 4

Camau rhagofalus at ddiben ymchwiliad 5

Cyngor a chymorth 5

Camymddygiad sydd hefyd yn drosedd 5

Cymorth/cynrychiolaeth gyfreithiol 8

Sancsiynau 8

Ffactorau lliniarol, gwaethygol a chyfunol 10

Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA) 10

ADRAN TRI: YMDDYGIAD MYFYRWYR 11

Camau'r Weithdrefn 11

Ymchwiliadau 12

Gwrandawiadau Pwyllgor Disgyblu 12

ADRAN PEDWAR: ADDASRWYDD I YMARFER 13

Egwyddorion 13

Camymddygiad proffesiynol 13

Pryderon iechyd 14

Cynghori myfyrwyr am safonau proffesiynol 15

Cymeradwyaeth gan Gyrff Proffesiynol Statudol a Rheoleiddiol (PSRBs) 15

Camau'r Weithdrefn 15

Ymchwiliadau 17

Gwrandawiadau Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer 17

Hysbysu cyrff proffesiynol/awdurdodau lleol/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) 20

ADRAN UN: CYFLWYNIAD

1.1 Mae myfyrwyr cofrestredig y Brifysgol yn cytuno i fod yn ddarostyngedig i God Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol a'r Rheoliadau Camymddygiad Anacademaidd a'r Gweithdrefnau cysylltiedig. Bydd methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad yn cael ei drin fel camymddygiad.

1.2 Cedwir cyfrinachedd, lle bo modd, gan nodi:

- Bydd staff perthnasol yn cael gwybodaeth sy'n angenrheidiol ac yn gymesur â'u rôl a'u cyfranogiad.
- Mae'n bosibl y bydd angen rhannu gwybodaeth o natur sensitif gyda'r rhai sy'n ymwneud â'r achos.
- Lle mae myfyriwr ar raglen sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol, efallai y bydd rhwymedigaethau datgelu ar y Brifysgol i'r corff allanol.
- Mae'n bosibl y bydd angen i'r Brifysgol rannu gwybodaeth y tu allan i'r sefydliad os yw hyn yn angenrheidiol i ddiogelu'r Myfyriwr sy'n Adrodd, y Myfyriwr sy'n Ymateb, neu eraill, rhag niwed neu i atal trosedd rhag digwydd.

1.3 Rhaid i bob parti gadw gwybodaeth a ddatgelir iddynt fel rhan o'r broses yn gyfrinachol. Bydd unrhyw ddatgeliad anawdurdodedig o wybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys recordio, copïo neu ddosbarthu recordiadau fideo/sain a gwaith papur sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau a gwrandawiadau, yn cael ei ystyried yn drosedd ddisgyblu ac yn cael sylw priodol. Bydd y Brifysgol yn gweithredu yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

1.4 Ymdrinnir â materion ymddygiad myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sydd wedi ymrestru ar gwrs sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol a/neu drwydded i ymarfer mewn cyd-destun proffesiynol o dan Reoliadau Addasrwydd i Ymarfer y Brifysgol a'r Polisi a Gweithdrefnau cysylltiedig.

1.5 Weithiau gall myfyrwyr gredu bod ganddynt achos i gwyno am ymddygiad myfyriwr arall tuag atynt, sydd wedi effeithio arnynt yn bersonol. Lle nad yw'r materion dan sylw yn effeithio ar weithgareddau'r Brifysgol, ni fyddant yn cael eu trin o dan Reoliadau a Gweithdrefnau'r Brifysgol.

1.6 Y Rheoliadau a'r Gweithdrefnau sy'n berthnasol fydd y rhai sydd ar waith yn ystod y flwyddyn y daw'r honiad i law.

1.7 Mae cyfeiriadau at 'prentis' drwy'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at brentisiaid/myfyrwyr Plismona Gweithredol.

1.8 Rhoddir gwybod i gyflogwr y prentis/myfyriwr Plismona Gweithredol gan Ddeon y Gyfadran (neu enwebai) am brentisiaid ar gyrsiau plismona/myfyrwyr Plismona Gweithredol sy'n torri'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr. Bydd gweithdrefnau'r heddlu perthnasol yn cael blaenoriaeth. Ni chynhelir unrhyw ymchwiliad o dan weithdrefnau'r Brifysgol hyd nes y bydd canlyniad ymchwiliad yr heddlu yn hysbys.

1.9 Bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn penderfynu a ddylid rhoi gwybod i'r cyflogwr am unrhyw honiad/ymchwiliad parhaus ar gyfer prentisiaid ar gyrsiau eraill.

1.10 Bydd achosion o dorri'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr sy'n ymwneud â chamymddygiad a thrais rhywiol yn cael eu hystyried o dan y Polisi Camymddygiad a Thrais Rhywiol a'r Gweithdrefnau cysylltiedig.

1.11 Gellir ymdrin ag achosion o dorri'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr gan fyfyrwyr sydd hefyd yn aelodau o staff y Brifysgol o dan weithdrefnau disgyblu Adnoddau Dynol.

1.12 Gall myfyrwyr wneud honiad o gamymddygiad yn erbyn myfyriwr arall drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys drwy'r system Adrodd a Chymorth, yn uniongyrchol i'r Gwasanaethau Llesiant, neu i unrhyw aelod o staff y Brifysgol.

ADRAN DAU: EGWYDDORION RHEOLEIDDIOL

Egwyddorion Cyffredinol

2.1 Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i ddarparu amgylchedd sy'n ddiogel, yn barchus ac yn oddefgar. O ganlyniad, disgwylir i fyfyrwyr, eu cynrychiolwyr ac aelodau staff ymddwyn yn rhesymol a theg tuag at ei gilydd a thrin y broses gyda pharch.

2.2 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu llesiant emosiynol, meddyliol a chorfforol yr holl bartïon sy'n gysylltiedig â gweithrediad ei Rheoliadau Disgyblu Anacademaidd a'r Polisi a Gweithdrefnau cysylltiedig.

2.3 Mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn rhoi arweiniad i staff a myfyrwyr ar gymhwysedd a gweithrediad y Rheoliadau a'r Polisi a Gweithdrefnau cysylltiedig.

2.4 Mae baich y prawf yn pennu cyfrifoldeb pwy ydyw i brofi mater. Mewn perthynas â honiadau ymddygiad/addasrwydd i ymarfer myfyrwyr, y Brifysgol sydd â baich y prawf.

2.5 Bydd canlyniad unrhyw wrandawiad disgyblu neu adolygiad yn cael ei benderfynu yn ôl pwysau tebygolrwydd, yn ôl cred resymol bod yr honiad yn fwy tebygol o fod yn wir na pheidio; gelwir hyn yn safon prawf ac mae'n wahanol i'r safon droseddol, sydd y tu hwnt i amheuaeth resymol.

2.6 Rhaid cyflwyno honiadau o gamymddygiad cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl; fel arfer dim hwyrach na thri mis ar ôl yr achos olaf a arweiniodd at yr honiad. Yr eithriad i'r amserlen arferol o dri mis yw unrhyw achos sy'n ymwneud â honiad o gamymddygiad sydd hefyd yn drosedd (gweler adrannau 2.21-2.27) neu oni bai bod rheswm da pam na ddygwyd yr honiad o gamymddygiad o fewn yr amserlen benodedig.

2.7 Lle gwneir honiad o gamymddygiad yn erbyn grŵp o fyfyrwyr, bydd penderfyniad yn cael ei wneud a yw'n fwy priodol ystyried yr achos fel grŵp neu a ddylid ystyried pob achos yn unigol.

2.8 Mae gan fyfyriwr sy'n destun honiad (y Myfyriwr sy'n Ymateb) yr hawl i gael gwybod am yr honiadau hynny ac ymateb iddynt fel y gallant amddiffyn eu hunain. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud honiad dderbyn y bydd ei ddatganiad a'i dystiolaeth ategol yn cael eu darparu i'r Myfyriwr sy'n Ymateb. O ganlyniad, ni fydd honiadau a wneir yn ddienw fel arfer yn cael eu derbyn gan y Brifysgol. Yn ogystal, ni fydd y Brifysgol fel arfer yn ystyried datganiadau tyst, lle mae'r tyst yn mynnu ei fod yn aros yn ddienw. Y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu ystyried honiad/datganiad tyst dienw, ar y cyd â chydweithwyr perthnasol fel y bernir yn briodol.

2.9 Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael cyfle i gadarnhau neu wadu yr honiad bod y Cod Ymddygiad Myfyrwyr wedi'i dorri. Os bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cyfaddef yn llawn

yr honiad fel y'i cyflwynwyd, bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) y mae'r myfyriwr yn perthyn iddo neu'r Pwyllgor Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer yn ystyried ffeithiau'r achos ac unrhyw ffactorau lliniarol/gwaethygol/cyfunol ac yn penderfynu pa sancsiynau, os o gwbl, y dylid eu defnyddio. Yn yr achos hwn, ni ellir dilyn y Weithdrefn lawn ond mae'r myfyriwr yn cadw'r hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

2.10 Bydd honiad(au) newydd neu ddiwygiedig a wneir, neu sy'n dod yn hysbys, yn ystod ymchwiliad yn cael eu cyfathrebu'n ysgrifenedig i'r Myfyriwr sy'n Ymateb. Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael cyfle i wneud sylwadau ar yr honiad(au) newydd/diwygiedig a bydd unrhyw sylwadau a wneir yn cael eu rhannu â'r holl bartïon perthnasol. Gall hyn hefyd arwain at (ail)gychwyn y Weithdrefn Asesu Risg i ystyried a oes angen unrhyw gamau rhagofalus, neu ddiwygiad i gamau rhagofalus presennol. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i'r Brifysgol rannu gwybodaeth y tu allan i'r sefydliad os yw hyn yn angenrheidiol i ddiogelu'r Myfyriwr sy'n Adrodd, y Myfyriwr sy'n Ymateb, neu eraill, rhag niwed neu i atal trosedd rhag digwydd.

2.11 Mae gan Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yr awdurdod i gymeradwyo diwygiadau i gyfansoddiad unrhyw bwyllgor neu banel o dan y Rheoliadau a'r Gweithdrefnau hyn.

2.12 Gellir sefydlu cytundeb gwirfoddol ar y cyd rhwng Myfyrwyr sy'n Adrodd ac sy'n Ymateb (Cytundeb Dim Cyswllt (NCA)) i gyfyngu ar y tebygolrwydd o gyswllt, ac eithrio'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer eu gweithgareddau academaidd, cyn neu yn ystod gweithredu'r Weithdrefn hon. Nid yw NCA yn ganfyddiad o gyfrifoldeb am dorri Cod Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol.

2.13 Lle bo unrhyw amwysedd ynghylch pa weithdrefn y dylid ei defnyddio oherwydd natur honiad, bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cysylltu â Deon y Gyfadran (neu enwebai) cyn penderfynu ar y weithdrefn briodol. Gallai enghraifft o hyn fod pan fo elfennau yn yr honiad y byddai'n fwy priodol eu hystyried o dan y Weithdrefn Camymddygiad Academaidd. Os oes mwy nag un weithdrefn yn berthnasol a bod angen dilyn un cyn y llall, gellir defnyddio canlyniad y gyntaf i lywio unrhyw weithdrefn(au) dilynol.

Recordiadau cudd

2.14 Mae'r Brifysgol yn cydnabod, gyda datblygiadau mewn technoleg fodern, ei bod yn haws gwneud recordiadau cudd hy recordiadau o gyfarfodydd neu sgyrsiau a wneir heb ganiatâd y cyfranogwyr. Lle gwneir recordiadau o alwadau ffôn, mae'r gweithgaredd hwn yn debygol o fod yn groes i Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000/Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 (fel y bo'n briodol). Yn achos recordiadau o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, mae'r deunydd a geir yn debygol o gael ei gadw'n groes i hawl Erthygl 8 y cyfranogwr (i fywyd preifat a theuluol) o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a rheoliadau diogelu data'r DU.

a. Yn ogystal, dim ond at y diben y'i gwnaed ar ei gyfer y dylid defnyddio recordiad ac ni ddylai fod ar gael i drydydd parti heb ganiatâd yr unigolyn y mae'n cyfeirio ato, oni bai bod rheswm cyfreithlon dros wneud hynny.

b. Am y rhesymau hyn, dim ond mewn achosion eithriadol o ymddygiad myfyrwyr y bydd y Brifysgol yn caniatáu defnyddio recordiadau o'r fath.

c. Y ffeithiau fydd yn cael eu hystyried yw:

- I ba raddau y mae'r dystiolaeth yn berthnasol i'r materion yn yr achos, gan gynnwys ystyried natur y dystiolaeth ac os oes tystiolaeth arall, mwy grymus ar gael.
- I ba raddau y mae'r dystiolaeth wedi'i chasglu'n anghyfreithlon neu i ba raddau y mae'r defnydd ohoni'n amharu fel arall ar hawliau preifatrwydd.
- I ba raddau y gellir dibynnu ar y dystiolaeth o safbwynt technegol o ystyried ei bod yn bosibl trin deunydd a recordiwyd. Gallai argaeledd trawsgrifiad annibynnol o unrhyw recordiad fod yn ddefnyddiol i fodloni'r gofyniad hwn.

Camau rhagofalus at ddiben ymchwiliad

2.15 Gellir cynnull Panel Asesu Risg dan y Weithdrefn Asesu Risg i wneud argymhellion yng nghyd-destun diogelu[1] y Myfyriwr/Prentis/Myfyriwr Plismona Gweithredol sy'n Ymateb ei hun, y Parti sy'n Adrodd, aelodau eraill o gymuned y Brifysgol neu enw da'r Brifysgol.

2.16 Os yw achos yn arbennig o frys neu sensitif, gall Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) gymeradwyo camau rhagofalus hyd nes y gellir cynnal cyfarfod o'r Panel Asesu Risg.

Cyngor a chymorth

Myfyrwyr

2.17 Cyfeirir y Parti sy'n Adrodd (os ydynt yn fyfyriwr) a'r Myfyriwr sy'n Ymateb i'r Parth Cyngor a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol, os ydynt yn ystyried bod yr achos wedi effeithio ar eu perfformiad academaidd.

2.18 Caniateir i fyfyrwyr sy'n ymwneud â gweithdrefnau disgyblu gael person cymorth gyda nhw mewn unrhyw drafodaethau, cyfarfodydd neu wrandawiadau.

2.19 Mae'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod presenoldeb person cymorth os penderfynir bod gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r person a enwebwyd, ac os felly, bydd y myfyriwr yn cael y cyfle i enwebu person cymorth gwahanol.

Staff

2.20 Cydnabyddir y gall ymdrin â materion ymddygiad myfyrwyr hefyd beri gofid ac achosi pwysau i staff. Mae'r Brifysgol yn rhedeg Cynllun Cymorth Staff, a cheir manylion amdano ar wefan Adnoddau Dynol. Yn ogystal, mae gan y Gaplaniaeth brofiad helaeth o ymdrin â materion sensitif ac mae ar gael i gynnig cyngor a chymorth cyfrinachol ffurfiol ac anffurfiol.

Camymddygiad sydd hefyd yn drosedd

2.21 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal tuag at ei staff a'i myfyrwyr ac felly mae'n rhaid iddi gael gwybod am unrhyw weithgarwch troseddol honedig gan ei myfyrwyr. Os cânt eu rhybuddio ar unrhyw adeg yn ystod eu cofrestriad fel myfyriwr yn y Brifysgol, neu os cânt eu harestio am drosedd, neu os cânt eu cyhuddo o drosedd, mae'n ofynnol iddynt roi gwybod ar unwaith ac adrodd ar hynt unrhyw achosion

[1] Defnyddir y term diogelu yma i gyfeirio at ddiogelu iechyd, llesiant a hawliau unigolion.

troseddol i Ysgrifennydd y Brifysgol neu Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebeion). Os anfonir myfyriwr i sefyll ei brawf, rhaid hysbysu Ysgrifennydd y Brifysgol neu Bennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebeion) ar bob lefel naill ai gan y myfyriwr neu ei gyfreithiwr/cynrychiolydd. Os bydd myfyriwr yn cael ei ddyfarnu'n euog wedi hynny, yna rhaid rhoi gwybod am hyn hefyd ynghyd â manylion unrhyw gosb neu ddedfryd a roddwyd. Bydd methu â hysbysu'r Brifysgol o drosedd, gan gynnwys rhybuddiad neu gerydd, cyn gynted â phosibl ar ôl yr arestiad, yn cael ei ystyried yn gamymddygiad.

2.22 Ar ôl derbyn cynnig o le, gofynnir i ymgeiswyr gysylltu ag Ymholiadau a Derbyniadau i ddatgelu unrhyw euogfarnau 'heb ddarfod' a sancsiynau cysylltiedig, a/neu unrhyw honiadau sy'n cael eu hymchwilio, a ystyrir yn berthnasol.

2.23 Euogfarnau a/neu honiadau perthnasol yw'r rhai sydd â goblygiadau i ddyletswydd gofal y Brifysgol tuag at ddiogelwch ei myfyrwyr, ei staff a'i hymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i euogfarnau sy'n ymwneud â:

- trais;
- troseddau rhywiol;
- cyflenwi cyffuriau;
- arfau tanio;
- llosgi bwriadol;
- terfysgaeth.

Gall hyn hefyd fod yn berthnasol i ymgeiswyr sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr wahardd heb euogfarn. Mae'r rhestr wahardd yn cynnwys manylion unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed oherwydd ymddygiad yn y gorffennol.

Mae hyn oherwydd efallai y bydd angen i'r Brifysgol adlewyrchu unrhyw gyfyngiadau ac amodau sydd wedi'u gosod.

Gall methu â datgelu gael ei ystyried yn gamymddygiad o dan y Weithdrefn hon. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mholisi Euogfarnau Troseddol Ymholiadau a Derbyniadau.

2.24 Mae'r Brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr roi gwybod i'r heddlu am honiad o drosedd; fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau bydd yr honiad yn cael ei wneud gan y Brifysgol ar ran y Parti sy'n Adrodd. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd y Brifysgol yn adrodd am drosedd honedig i'r heddlu yn groes i ddymuniadau'r Parti sy'n Adrodd os oes angen datgelu'r wybodaeth i ddiogelu'r Parti sy'n Adrodd, neu eraill, rhag niwed neu i atal trosedd arall rhag digwydd.

Wrth benderfynu a ddylid gwneud datgeliad o'r fath ac wrth benderfynu pa wybodaeth i'w datgelu, bydd y Brifysgol yn ystyried ei rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol/Deddf Diogelu Data ac unrhyw niwed posibl y gallai datgeliad anawdurdodedig ei achosi i'r Parti sy'n Adrodd.

Os bydd y Parti sy'n Adrodd yn penderfynu peidio â chynnwys yr heddlu, bydd ganddynt y dewis o hyd i ofyn i'r Brifysgol ystyried y mater o dan ei Rheoliadau a'i Gweithdrefnau. Gall y Brifysgol, o'i gwirfodd, hefyd benderfynu defnyddio ei Rheoliadau a'i Gweithdrefnau. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr achos yn cael ei drin fel achos posibl o dorri'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr ac nid fel trosedd.

2.25 Gall ymddygiad, a all fod yn drosedd, hefyd fod yn gyfystyr â chamymddygiad y gellir ymdrin ag ef, yn ogystal ag unrhyw broses droseddol, o dan y Weithdrefn hon, os yw'r ymddygiad hwnnw:

- wedi digwydd ar dir y Brifysgol; a/neu
- wedi effeithio ar aelodau eraill o'r Brifysgol; a/neu
- wedi niweidio neu'n debygol o niweidio enw da'r Brifysgol; a/neu
- yn effeithio ar addasrwydd myfyriwr i ymarfer a/neu
- gall achosi teimladau o fregusrwydd o fewn cymuned y Brifysgol.

2.26 Mae'r canlynol yn berthnasol lle byddai'r camymddygiad honedig hefyd yn drosedd o dan y gyfraith droseddol pe bai'n cael ei brofi mewn llys barn:

a) Ni chymerir unrhyw gamau disgyblu (ac eithrio camau rhagofalus – gweler y Weithdrefn Asesu Risg) tra bod yr heddlu'n ymchwilio i achos a naill ai'r Myfyriwr sy'n Ymateb wedi'i erlyn neu fod penderfyniad i beidio ag erlyn wedi'i wneud, a bryd hynny gall yr Is-Ganghellor (neu enwebai) benderfynu a fydd camau disgyblu'n cael eu cymryd.

b) Lle gwneir canfyddiad o gamymddygiad a bod y Myfyriwr sy'n Ymateb wedi'i ddedfrydu gan lys troseddol mewn perthynas â'r un ffeithiau, bydd cosb y llys yn cael ei hystyried wrth benderfynu ar unrhyw sancsiwn dan reoliadau'r Brifysgol. Ni fydd angen ymchwiliad pellach gan y Brifysgol fel arfer, gan y bydd yr euogfarn/rhybudd yn cael ei gymryd fel tystiolaeth bod yr ymddygiad wedi digwydd. Bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) ar y cyd â Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn penderfynu a oes angen ymchwiliad.

c) Pan fydd dedfryd o garchar o lai na chwe mis wedi'i gosod, fel arfer bydd yn ofynnol i'r Myfyriwr sy'n Ymateb atal ei astudiaethau am gyfnod y ddedfryd o garchar. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y dyddiad y bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn dychwelyd i'w astudiaethau, gan ystyried ei amgylchiadau unigol.

d) Lle bo'r ddedfryd o garchar yn fwy na chwe mis neu'n hwy na gweddill hyd cwrs y Myfyriwr sy'n Ymateb, bydd y Brifysgol yn eu tynnu'n ôl. Gall y Myfyriwr sy'n Ymateb ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwn. Bydd y cais am adolygiad yn cael ei ystyried gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai) ac aelod o'r uwch dîm rheoli. Rôl y Panel Adolygu yw ystyried a oedd penderfyniad Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn gywir yn seiliedig ar y rheoliadau a'r dystiolaeth gyfredol oedd ar gael iddynt ar y pryd; ac i ystyried a allai unrhyw dystiolaeth newydd wrthdroi'r penderfyniad hwn. Yn achos gwahaniaeth barn rhwng y ddau aelod o'r Panel Adolygu, yr Is-Ganghellor (neu enwebai) fydd â'r bleidlais fwrw.

2.27 Gellir ystyried trosedd gyrru o dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer. Wrth ystyried a yw trosedd gyrru yn codi amheuaeth ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer, bydd y canlynol yn cael eu hystyried:

- natur y drosedd;
- a ddigwyddodd y drosedd wrth ymgymryd â dyletswyddau proffesiynol;
- a yw'n drosedd ailadroddus;
- a oes amgylchiadau eraill yn gysylltiedig â'r drosedd.

Cymorth/cynrychiolaeth gyfreithiol

2.28 Nid yw Gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn gyfreithiol eu natur ac o ganlyniad, ni ddylai fod angen i fyfyrwyr gael person cymorth neu gynrychiolydd cyfreithiol gymwys mewn gwrandawiadau/cyfarfodydd. Fodd bynnag, gallant geisio cyngor rhagarweiniol, heb ragfarn, ar gwmpas a natur y dystiolaeth y maent yn bwriadu ei chyflwyno i gefnogi achos sy'n arbennig o gymhleth.

2.29 Fodd bynnag, cydnabyddir, lle mae'r canlyniadau i'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn ddifrifol, efallai y bydd am ofyn i berson cymorth neu gynrychiolydd cyfreithiol gymwys fynychu unrhyw gyfarfodydd neu wrandawiadau gyda nhw. Diffinnir y broses ar gyfer gwneud cais am hyn o dan y Weithdrefn ar gyfer Ystyried Cynrychiolaeth Gyfreithiol.

2.30 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dderbyn neu wrthod cais am berson cymorth neu gynrychiolydd cyfreithiol gymwys i fynychu unrhyw gyfarfodydd/gwrandawiadau, yn dibynnu a ddarperir rheswm da a chymhlethdod a difrifoldeb yr achos (gweler adran 3 o'r Weithdrefn). Pe bai cais o'r fath yn cael ei gymeradwyo, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gael person/cynrychiolydd cyfreithiol gymwys yn bresennol hefyd. Rhoddir gwybod yn glir i bersonau cymorth/cynrychiolwyr cyfreithiol gymwys am natur yr achos, hy nad ydynt yn broses gyfreithiol ac na fyddant yn cael eu cynnal felly.

Sancsiynau

2.31 Mae ystod o sancsiynau y gall y Brifysgol eu defnyddio ar wahanol gamau o'i Gweithdrefnau. Gellir ystyried newidiadau i'r rhain a'u cymhwyso fel addasiad rhesymol yn dibynnu ar anghenion unigol y myfyriwr.

<u>Ymddiheuriad ysgrifenedig</u>

2.32 Efallai y bydd gofyn i'r Myfyriwr sy'n Ymateb ysgrifennu ymddiheuriad ysgrifenedig; gallai hyn fod i'r unigolyn perthnasol, neu i'r Brifysgol. Os yw'r Brifysgol yn anfodlon â'r ymddiheuriad, efallai y gofynnir i'r Myfyriwr sy'n Ymateb ei ailysgrifennu neu gellir cyfeirio'r achos yn ôl i gymryd camau pellach o dan y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr.

<u>Rhybuddion</u>

2.33 Mae tri chategori o rybuddion ffurfiol y gellir eu cyhoeddi yn dibynnu ar ddifrifoldeb y camymddygiad.

- Rhybudd llafar
- Rhybudd ffurfiol ysgrifenedig – bydd yn cael ei gadw ar gofnod am gyfnod penodol, sef blwyddyn fel arfer. Gall unrhyw achos tebyg o drosedd debyg olygu bod y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Disgyblu/Addas i Ymarfer.
- Rhybudd ysgrifenedig terfynol – gall unrhyw achosion pellach o gamymddygiad gael eu trin yn uniongyrchol gan Bwyllgor Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer, a bydd y drosedd a brofwyd yn cael ei hystyried wrth benderfynu ar sancsiwn.

Taliadau

2.34 Mae'n bosibl y bydd gofyn i'r Myfyriwr sy'n Ymateb wneud iawn am unrhyw ddifrod y mae wedi'i achosi ar ei draul ei hun, hyd at £1000. Telir y taliadau i berchennog neu feddiannydd yr eiddo a ddifrodwyd. Rhoddir ystyriaeth i fodd y Myfyriwr sy'n Ymateb, a gellir caniatáu amser iddynt dalu'r swm neu ganiatáu iddynt dalu'r swm mewn rhandaliadau penodedig.

Cyfyngiadau/amodau

2.35 Gellir gosod cyfyngiadau neu amodau ar y Myfyriwr sy'n Ymateb. Enghreifftiau yw: dylid ceisio cymorth gan y Gwasanaethau Myfyrwyr; dim cyswllt uniongyrchol â myfyriwr arall (Dim Gorchymyn Cyswllt (NCO)). Os bernir mai dyna sydd orau er budd y myfyriwr, gellir atgyfeirio'r achos at raglen addysgol.

Gwaharddiad

2.36 Mae gan Bwyllgor Disgyblu'r Brifysgol/Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (gweler Adrannau Tri a Phedwar isod) yr awdurdod i wahardd y Myfyriwr sy'n Ymateb o gampysau penodol, ardaloedd penodol o gampws, megis Undeb y Myfyrwyr, Neuaddau Preswyl neu'r Neuadd Chwaraeon. Mewn achosion o'r fath, bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb fel arfer yn cael mynychu'r Brifysgol at ddibenion addysg a chymorth yn unig.

Ataliad

2.37 Mae gan Bwyllgor Disgyblu'r Brifysgol/Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (gweler Adrannau Tri a Phedwar isod) yr awdurdod i wahardd y Myfyriwr sy'n Ymateb o'r Brifysgol am resymau disgyblu am gyfnod y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried yn gyfiawn ac yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Gellir gosod amodau pan fydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn dychwelyd i astudio. Gall fod yn ofynnol i Fyfyrwyr sy'n Ymateb sy'n cael eu hatal dros dro dalu swm cymesur o ffioedd yn dibynnu ar asesiad o'r ffioedd a dalwyd eisoes a'r addysgu a dderbyniwyd eisoes. Gall unrhyw farciau sydd heb eu cadarnhau gan y byrddau asesu cyn yr ataliad gael eu dileu.

Tynnu'n ôl

2.38 Mae gan Bwyllgor Disgyblu'r Brifysgol/Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (gweler Adrannau Tri a Phedwar isod) yr awdurdod i fynnu bod y Myfyriwr sy'n Ymateb yn tynnu'n ôl o'r Brifysgol ar sail disgyblu. Efallai y bydd gofyn i'r Myfyriwr sy'n Ymateb dalu swm cymesur o ffioedd yn dibynnu ar asesiad o'r ffioedd a dalwyd eisoes a'r addysgu a dderbyniwyd eisoes. Gellir dileu unrhyw farciau nad ydynt wedi'u cadarnhau gan y byrddau asesu cyn y diarddel.

Cymhwyso sancsiynau

2.39 Mae'r sancsiynau a nodir yn y Canllawiau ar Gymhwyso Sancsiynau yn enghreifftiol yn unig.

2.40 Gall achosion lluosog neu ailadroddus o gamymddygiad fod yn fwy difrifol nag un weithred o gamymddygiad a gellir ystyried canfyddiadau blaenorol wrth benderfynu pa sancsiwn y dylid ei roi.

2.41 Gellir gosod sancsiynau ar bartïon sy'n ymateb sydd wedi graddio, lle y digwyddodd trosedd tra'u bod yn fyfyriwr yn y Brifysgol. Byddai hyn fel arfer yn gyfystyr â rhybudd

ysgrifenedig ffurfiol a fyddai'n aros ar gofnod y Myfyriwr sy'n Ymateb am gyfnod penodol o amser.

Ffactorau lliniarol, gwaethygol a chyfunol

2.42 Bydd y Brifysgol yn ystyried ffactorau lliniarol, gwaethygol a chyfunol wrth benderfynu ar sancsiwn mewn perthynas â honiadau a gadarnhawyd.

2.43 Mae enghreifftiau o ffactorau lliniarol y gall y Brifysgol eu hystyried yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- cyfaddef i weithredoedd a dangos gwir edifeirwch amdanynt;
- tystiolaeth bod y drosedd wedi'i chyflawni heb y bwriad o achosi niwed, difrod neu ofid;
- bu ymgais i wneud iawn;
- ymgysylltu â rhaglenni addysgol sy'n berthnasol i'r drosedd;
- dirnadaeth o ran y drosedd a'i heffaith;
- mae'r Parti sy'n Adrodd wedi gofyn am drugaredd.

2.44 Mae enghreifftiau o ffactorau gwaethygol y gall y Brifysgol eu hystyried yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- y defnydd o rym/trais/bygythiadau/brawychu;
- y defnydd o gyffuriau/alcohol;
- dim dirnadaeth nac edifeirwch;
- mae'r Parti sy'n Adrodd wedi gofyn am gosbau uwch.

2.45 Mae enghreifftiau o ffactorau cyfunol y gall y Brifysgol eu hystyried yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- hanes blaenorol o gamymddygiad;
- camymddygiad blaenorol o natur ddifrifol;
- toriadau cronnol.

Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA)

2.46 Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb, y Parti sy'n Adrodd neu dystion yn anhapus â chanlyniad achos a ystyriwyd o dan y Rheoliadau a'r Gweithdrefnau Camymddygiad Anacademaidd, gallant, yn dilyn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol, gyflwyno cwyn i'r OIA.

2.47 Gellir gweld manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun yn www.oihe.org.uk. Gellir cael rhagor o wybodaeth a chyngor gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

ADRAN TRI: YMDDYGIAD MYFYRWYR

Camau'r Weithdrefn

Cam 1: Camymddygiad nad yw'n sylweddol

3.1 Mae camymddygiad nad yw'n sylweddol yn weithred neu'n ymddygiad nad yw'n ddigon difrifol i fod yn gamymddygiad sylweddol. Rhoddir rhai enghreifftiau anghyflawn o gamymddygiad nad yw'n sylweddol isod, a gallant gynnwys gweithredoedd a gyflawnwyd gan ddefnyddio technoleg, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag wyneb yn wyneb:

- ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n achosi gofid neu drallod i unigolion eraill;
- difrod i eiddo heb fwriad maleisus;
- methiant i gydymffurfio â chais rhesymol unigolyn awdurdodedig;
- methiant i roi enw a chyfeiriad i swyddog neu weithiwr yn y Brifysgol pan ofynnir yn rhesymol iddo wneud hynny;
- gweithredoedd/hepgoriadau a achosodd neu a allai fod wedi achosi pryder iechyd a diogelwch ar dir y Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, ysmygu sigaréts mewn ardaloedd heb eu dynodi).

Gweler y Weithdrefn ar gyfer Cam 1: Camymddygiad nad yw'n sylweddol

Cam 2: Camymddygiad Sylweddol

3.2 Diffinnir gweithred neu ymddygiad fel camymddygiad sylweddol lle gall achosi i'r Brifysgol gwestiynu gallu myfyriwr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Siarter y Myfyrwyr a'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr. Rhoddir rhai enghreifftiau anghyflawn o gamymddygiad sylweddol isod, a gallant gynnwys gweithredoedd a gyflawnwyd gan ddefnyddio technoleg, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag wyneb yn wyneb:

- gweithredoedd brawychus, bwlio neu aflonyddu difrifol neu barhaus;
- ymosodiad corfforol;
- ymddygiad bygythiol, sarhaus neu anweddus difrifol;
- triniaeth wahaniaethol o eraill yn groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol neu bolisïau Urddas ym Mhrifysgol De Cymru;
- lladrad, twyll neu ffugio cofnodion;
- torri rheoliadau'r Brifysgol yn ddifrifol gan gynnwys y Rheoliadau Cyfrifiadura TG a'r Polisi Iechyd a Diogelwch;
- cario neu ddefnyddio arf neu arf tanio;
- gweithredoedd o fân gamymddygiad lluosog neu ailadroddus.

Gweler y Weithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Achosion o Gamymddygiad Myfyrwyr a'r Weithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Pwyllgorau Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer.

Bydd honiadau o gamymddygiad rhywiol a thrais yn cael eu hystyried o dan y Polisi Camymddygiad a Thrais Rhywiol a Gweithdrefnau cysylltiedig.

Cam 3: Cais am Adolygiad

Y Myfyriwr sy'n Ymateb

3.3 Mae gan y Myfyriwr sy'n Ymateb yr hawl i ofyn am adolygiad yn erbyn y canlyniad a'r sancsiynau a weithredir o dan y Weithdrefn hon.

3.4 Wrth wneud cais am adolygiad, cyfrifoldeb y Myfyriwr sy'n Ymateb yw dangos, yn ôl pwysau tebygolrwydd, bod tystiolaeth i ddangos bod un neu fwy o'r seiliau a nodir yn y Weithdrefn yn berthnasol.

3.5 Amlinellir y broses yn y Weithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Adolygiad.

Y Parti sy'n Adrodd a Thystion

3.6 Os yw'r Parti sy'n Adrodd neu unrhyw dystion (sy'n fyfyrwyr yn y Brifysgol) yn anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'r Weithdrefn, efallai y gallant gyflwyno cwyn gan ddefnyddio'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr.

Ymchwiliadau

3.7 Mae'r broses Ymchwilio fel y'i hamlinellir yn y Weithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Achosion o Gamymddygiad Myfyrwyr.

3.8 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn penderfynu a oes angen iddo gyfweld ag unrhyw dystion a nodir naill ai gan y Parti sy'n Adrodd neu'r Myfyriwr sy'n Ymateb. Er mwyn gwneud hynny, bydd yn rhaid iddynt ddatgelu manylion yr achos dan sylw i'r tyst ond bydd yn gofyn iddynt gadw cyfrinachedd.

3.9 Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, cyflwynir adroddiad y Swyddog Ymchwilio i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai). Gwneir penderfyniad ynghylch a oes achos i'w ateb ac, os felly, a ddylid cyfeirio'r achos at Bwyllgor Disgyblu'r Brifysgol.

Gwrandawiadau Pwyllgor Disgyblu

3.10 Bydd Pwyllgor Disgyblu yn ystyried achosion difrifol o gamymddygiad gan fyfyrwyr. Bydd Pwyllgorau Disgyblu yn cael eu cyfansoddi fel a ganlyn:

- un aelod o uwch dîm rheoli'r Brifysgol (Cadeirydd);
- un aelod o staff y Bwrdd Academaidd;
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr neu enwebai.

Bydd gwrandawiadau'r Pwyllgor Disgyblu yn cael eu gwasanaethu gan Ysgrifennydd, nad yw'n aelod ond a fydd yn bresennol drwy gydol y trafodion. Yr Ysgrifennydd fydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai).

Ni fydd aelodau'r Pwyllgor Disgyblu wedi bod ag unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos(ion) neu gysylltiad â'r myfyriwr(wyr). Ni fydd cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr wedi cefnogi'r myfyriwr o'r blaen yn ystod yr achos.

Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael gwybod am gyfansoddiad y Pwyllgor cyn i'r ddogfennaeth gael ei dosbarthu a bydd yn cael y cyfle i godi unrhyw bryderon mewn perthynas â'r aelodaeth, er enghraifft os oes ganddo sail i ystyried y gallai aelod fod yn rhagfarnllyd.

Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd cynrychiolydd o'r cyflogwr hefyd yn cael ei wahodd i fynychu fel sylwedydd.

3.11 Mae swyddogaethau'r Pwyllgor Disgyblu fel a ganlyn:

a) Ystyried adroddiadau gan Swyddogion Ymchwilio mewn perthynas â honiadau difrifol o gamymddygiad.

b) Sefydlu, cyn belled ag y bo modd, ffeithiau'r achos, a galw tystion lle bo angen.

c) Ystyried gweithredu priodol.

d) Cytuno nad oes achos i'w ateb. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y Brifysgol yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb wedi bod dan anfantais oherwydd unrhyw gamau disgyblu neu ataliad.

e) Adrodd ar ei benderfyniad i'r Is-Ganghellor ac Ysgrifennydd y Brifysgol.

3.12 Dim ond ar ôl i gyfnod y cais am adolygiad ddod i ben y bydd sancsiynau, ac eithrio ataliad a thynnu'n ôl, yn cael eu gosod.

ADRAN PEDWAR: ADDASRWYDD I YMARFER

Egwyddorion

4.1 Mae'r Rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer yn ymwneud â chyrsiau sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol, anodi/cofrestru cychwynnol a/neu bellach, a/neu drwydded i ymarfer mewn cyd-destun proffesiynol ac sy'n cael eu nodweddu fel rhai sy'n canolbwyntio ar wasanaeth/cleient/claf a'u cyfeirio tuag at gyflawni cymhwysedd proffesiynol a/neu gofrestriad proffesiynol. Yn ogystal, gall y Rheoliadau hyn fod yn gymwys i gyrsiau sy'n hwyluso mynediad i gyrsiau sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol a/neu drwydded i ymarfer (gweler Atodiad 1).

4.2 Bydd y Brifysgol, pan fo angen, yn cymryd camau o dan ei Rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer a Pholisi a Gweithdrefnau cysylltiedig i:

- diogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth neu gleientiaid presennol neu'r dyfodol (hy diogelu'r cyhoedd);
- dangos prosesau cadarn i amddiffyn y cyhoedd;
- cydymffurfio â gofynion Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRBs).

Wrth eu cymhwyso, mae Rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer y Brifysgol yn diogelu'r Brifysgol pe bai cyflogwr, a/neu'r cyhoedd a/neu gyn-fyfyrwyr yn y dyfodol, yn cwestiynu ein proses a'n penderfyniadau dilynol.

Camymddygiad proffesiynol

4.3 Mae'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr yn cynnwys rhestr ***anghyflawn*** o enghreifftiau o ymddygiad, a fyddai'n gyfystyr â chamymddygiad proffesiynol a thrwy hynny'n sbarduno ymchwiliad i addasrwydd myfyriwr i ymarfer. Mae'r rhain yn berthnasol i bob agwedd ar fywyd proffesiynol a phersonol myfyriwr, gan gynnwys gweithgaredd ar-lein a rhwydweithio cymdeithasol.

Anaddasrwydd proffesiynol

4.4 Gellir dangos anaddasrwydd proffesiynol mewn sawl ffordd. Mae'r canlynol yn enghreifftiau dangosol cyffredin:

a) Methiant i gadw at brosesau a gweithdrefnau ac agwedd neu ymddygiad amhriodol a all gael ei amlygu gan:

- methiant i dderbyn a dilyn cyngor gan y Brifysgol neu ddarparwr dysgu lleoliad/ymarfer;
- methiant i ddilyn gweithdrefnau/arferion a argymhellir a allai roi pobl eraill, cleientiaid, myfyrwyr, staff mewn perygl o niwed;
- diffyg cymhelliant neu ddiddordeb parhaus a/neu ddiffyg cyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu (ee dysgu ymarfer/lleoliadau, cyflwyniadau, sesiynau academaidd wedi'u hamserlennu, tiwtorialau academaidd neu fugeiliol, sesiynau sgiliau clinigol, gofal cleientiaid uniongyrchol);
- diffyg presenoldeb yn y dosbarth, dysgu ymarfer/lleoliad neu apwyntiad perthnasol arall;
- ymrwymiad gwael i'r gwaith a methu ei gyflwyno;
- methu cymwyseddau/hyfedredd proffesiynol gofynnol yn barhaus.

b) Ymddygiad amhroffesiynol a all gael ei amlygu gan:

- camddefnyddio'r rhyngrwyd a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol;
- methiant i gadw ffiniau proffesiynol neu rywiol priodol;
- torri cyfrinachedd;
- gwahaniaethu anghyfreithlon;
- anfoesgarwch parhaus tuag at bobl, cydweithwyr neu eraill;
- ymddygiad anghymdeithasol sy'n effeithio'n andwyol ar weithrediad priodol y cyd-destun ymarfer proffesiynol;
- anonestrwydd.

Pryderon iechyd

4.5 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall fod gan fyfyrwyr, neu y gallent ddatblygu, cyflyrau iechyd a allai effeithio ar eu haddasrwydd i ymarfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd cyflyrau iechyd (gan gynnwys anableddau) yn codi pryderon mewn perthynas ag addasrwydd myfyriwr i ymarfer. Mae arferion a gweithdrefnau cynhwysol y Brifysgol wedi'u cynllunio'n bennaf i ddiwallu anghenion myfyrwyr ag anableddau; gellir gwneud addasiadau pellach hefyd i sicrhau nad yw myfyrwyr dan anfantais oherwydd cyflwr iechyd/anabledd, gan ystyried unrhyw faterion iechyd a diogelwch. Efallai y gofynnir hefyd i fyfyrwyr addasu eu hymarfer i sicrhau eu bod yn gallu astudio a gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

4.6 Yn anffodus, efallai y bydd amgylchiadau pan fydd addasrwydd myfyriwr i ymarfer yn cael ei amharu, ac nid yw'n bosibl darparu addasiadau rhesymol oherwydd cyfyngiadau iechyd a diogelwch/eraill. Gall hyn ei gwneud yn amhosibl i fyfyriwr raddio gyda dyfarniad a gymeradwyir yn broffesiynol/achrededig, gan ei atal rhag mynd i hyfforddiant pellach, cofrestru neu gael anodi/cofrestru pellach gyda'r corff proffesiynol perthnasol.

4.7 Bydd y Brifysgol yn ystyried pa dystiolaeth, os o gwbl, y mae ei hangen gan y myfyriwr fel y gall asesu ei addasrwydd i ymarfer yn briodol a'i gefnogi yn ei astudiaethau. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth feddygol a/neu atgyfeiriad iechyd

galwedigaethol. Bydd y Brifysgol yn cefnogi myfyrwyr i gael y dystiolaeth hon, er enghraifft, trwy eu cyfeirio at yr arbenigwr priodol a thalu am yr adroddiad lle mae hyn yn gymesur. Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir gan yr arbenigwr priodol adlewyrchu addasrwydd y myfyriwr i ymgymryd ag ymarfer yn ddiogel.

Cynghori myfyrwyr am safonau proffesiynol

4.8 Rhaid i bob cyfadran sicrhau bod ei myfyrwyr yn ymwybodol o'r safonau proffesiynol perthnasol a dylai fod ganddi ei threfniadau mewnol ei hun i fonitro a sicrhau addasrwydd i ymarfer myfyrwyr.

4.9 Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys:

- darparu contract myfyriwr sy'n cynnwys cyfeiriad at fater addasrwydd i ymarfer:
- darparu cyngor i fyfyrwyr ynghylch safonau ymddygiad proffesiynol, ee, fel y disgrifir mewn llawlyfrau myfyrwyr a/neu ganllawiau gan gyrff proffesiynol priodol;
- darparu sesiynau sefydlu priodol ar ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i ymarfer a'r hyn y mae'n ei olygu;
- darparu manylion gofynion y corff proffesiynol perthnasol i fyfyrwyr, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chymhwysedd y myfyriwr i gofrestru ac â rhwymedigaeth deon y gyfadran o ran datgan ei fod yn addas i ymarfer;
- darparu copi o'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer a'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr;
- proses ar gyfer nodi achosion honedig o anaddasrwydd i ymarfer, ar gyfer cyflawni gofynion y Weithdrefn hon ac unrhyw ofynion ysgol ychwanegol sy'n ymwneud â'r maes pwnc.

Cymeradwyaeth gan Gyrff Proffesiynol Statudol a Rheoleiddiol (PSRBs)

4.10 Mae rhai PSRBs yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod Cofrestredig o'r corff hwnnw, sydd hefyd yn uwch aelod o staff academaidd yn y maes disgyblaeth, i gymeradwyo bod myfyriwr yn broffesiynol addas cyn y caniateir i'r ymgeisydd gofrestru. Er y gallai unrhyw achos a ystyrir drwy'r Weithdrefn hon lywio'r penderfyniad hwn, mae'r penderfyniad yn un i'r Aelod Cofrestredig ei wneud fel sy'n ofynnol gan y PSRB ac nid yw'n destun apêl nac adolygiad drwy'r Brifysgol.

Camau'r Weithdrefn

<u>Ataliad o leoliad neu faes dysgu ymarfer</u>

4.11 Gall darparwr lleoliad atal myfyriwr o leoliad neu faes dysgu ymarfer, o dan ei weithdrefnau ei hun, a chyn cyfeirio at y Rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer a'r Polisi a Gweithdrefnau cysylltiedig, a/neu gall ofyn am gyngor gan y Brifysgol ynghylch ataliad, os yw yn honni nad yw'r myfyriwr yn addas i ymarfer[2].

4.12 Fel arfer dylid hysbysu Arweinydd y Cwrs (neu enwebai) ar unwaith am ataliad o'r gwaith ond lle bo amgylchiadau'n gwneud hyn yn amhosibl, rhaid hysbysu Arweinydd y Cwrs (neu enwebai) o fewn dau ddiwrnod gwaith.

[2] Gweler hefyd y Llawlyfr Partneriaethau - *https://academicregistry.southwales.ac.uk/cofrestrfa-academaidd/qae_w/*

4.13 Gall Arweinydd y Cwrs (neu enwebai) hefyd gychwyn atal myfyriwr o leoliad neu faes dysgu ymarfer

4.14 Mae enghreifftiau o amgylchiadau a fyddai'n golygu bod angen atal lleoliad neu faes dysgu ymarfer yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- gweithgaredd troseddol honedig a arweiniodd at arestio gan yr heddlu ac sy'n destun ymchwiliadau parhaus neu wrth aros am wrandawiad llys, gan gynnwys bod yn destun mechnïaeth yr heddlu;
- unrhyw bryderon diogelu sy'n ymwneud â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg;
- unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelwch cleientiaid a/neu amddiffyn y cyhoedd lle maent wedi cael eu hatal o gyflogaeth;
- unrhyw honiad yn ymwneud ag anonestrwydd, twyll, a chamymddygiad rhywiol a godwyd gan gyflogwr neu unigolyn, gan gynnwys ymchwiliadau parhaus gan Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru, a chyrff cyfatebol yn y DU;
- unrhyw ymchwiliad a gynhelir gan reoleiddiwr iechyd a gofal cymdeithasol y DU, er enghraifft Cyngor Gofal Cymru, yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

4.15 Bydd y myfyriwr fel arfer yn cael ei wahardd o'r lleoliad neu faes dysgu ymarfer nes bydd canlyniad ymchwiliad yn hysbys.

4.16 Os yw'r myfyriwr ar fisa Haen 4, rhaid i Arweinydd y Cwrs (neu enwebai) roi gwybod i Bennaeth Cydymffurfiaeth, a fydd yn rhoi gwybod am y newid mewn amgylchiadau i Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI).

4.17 Lle nodir mater diogelu a/neu fod yr achos yn erbyn y myfyriwr yn ddifrifol iawn neu'n droseddol ei natur, dylid cyfeirio'r achos at Waith Achos Myfyrwyr, a fydd yn rhoi'r Weithdrefn Asesu Risg ar waith.

4.18 Lle bydd y Gyfadran yn penderfynu y dylid cyfeirio achos i'r Brifysgol ymchwilio iddo ymhellach, dilynir y Weithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Achosion o Gamymddygiad Myfyrwyr.

Cam 1: Ystyriaeth gan y Gyfadran

Ystyriaeth gychwynnol o bryder

4.19 Bydd pryderon a godir ynghylch achosion honedig o dorri safonau neu ymddygiad proffesiynol yn cael eu hystyried gan aelodau priodol o staff o fewn y maes pwnc y mae'r myfyriwr yn astudio ynddo, a all benderfynu a yw'n briodol cymryd camau cefnogi neu y dylid cyfeirio'r achos at Ddeon y Gyfadran (neu enwebai) neu i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr i gychwyn Cam 2. Gweler y Weithdrefn ar gyfer Cam 1.

Ystyriaeth gan Ddeon y Gyfadran (neu enwebai)

4.20 Os yw'r achos wedi'i gyfeirio i'w ystyried gan Ddeon y Gyfadran (neu enwebai), bydd y myfyriwr yn cael ei alw i gyfarfod o fewn 5 diwrnod gwaith i'r atgyfeiriad.

4.21 Mae Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn gallu rhoi sancsiynau fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau Camymddygiad Anacademaidd, Adran Dau: Egwyddorion Rheoleiddiol, paragraffau 2.32 i 2.35.

4.22 Gall Deon y Gyfadran (neu enwebai) gyfeirio'r pryder yn ôl at y tîm pwnc i ystyried camau rhagofalus neu ofyn am ymchwiliad i'r pryderon a godwyd os bernir bod angen hynny.

4.23 Rhaid darparu'r canlyniad yn ysgrifenedig i'r myfyriwr o fewn pum diwrnod gwaith i'r cyfarfod.

4.24 Os nad yw'r myfyriwr yn cytuno â'r canlyniad a'r sancsiwn a osodwyd gan Ddeon y Gyfadran, gall ofyn i'w achos gael ei gyfeirio at Gam 2 y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer, a bydd Swyddog Ymchwilio yn cael ei benodi.

Cam 2: Cam ffurfiol

4.25 Gall pryderon o natur ddifrifol naill ai gael eu cyfeirio gan y Gyfadran, eu hadrodd yn uniongyrchol i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol neu eu hadrodd drwy'r system Adrodd a Chymorth. Rhaid darparu tystiolaeth i gefnogi unrhyw honiadau, a dylid ei chyflwyno mewn modd amserol.

4.26 Lle gwneir atgyfeiriad yn uniongyrchol i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn ystyried natur a difrifoldeb yr honiadau ac yn penderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad neu a ddylid cyfeirio'r mater yn ôl at Ddeon y Gyfadran (neu enwebai).

Cam 3: Cais am Adolygiad

4.27 Mae gan y Myfyriwr sy'n Ymateb yr hawl i ofyn am adolygiad yn erbyn unrhyw sancsiwn a osodwyd yng Ngham 2 y Weithdrefn. Gweler y Weithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Adolygiad.

4.28 Cyfrifoldeb y Myfyriwr sy'n Ymateb, wrth wneud cais am adolygiad, yw dangos, yn ôl pwysau tebygolrwydd, bod tystiolaeth i ddangos bod un neu fwy o'r seiliau a nodir yn y Weithdrefn yn berthnasol.

Ymchwiliadau

4.29 Bydd y broses Ymchwilio fel yr amlinellir yn y Weithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Achosion o Gamymddygiad Myfyrwyr.

4.30 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn penderfynu a oes angen iddo gyfweld ag unrhyw dystion a nodir naill ai gan y Parti sy'n Adrodd neu'r Myfyriwr sy'n Ymateb. Er mwyn gwneud hynny, bydd yn rhaid iddynt ddatgelu manylion yr achos dan sylw i'r tyst ond bydd yn gofyn iddynt gadw cyfrinachedd.

4.31 Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, cyflwynir adroddiad y Swyddog Ymchwilio i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai). Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes achos i'w ateb ac, os felly, a ddylai'r achos gael ei gyfeirio at Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

Gwrandawiadau Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

Cyfansoddiad y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

4.32 Mae'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer wedi'i gyfansoddi fel a ganlyn:

- un uwch aelod o staff ar lefel Pennaeth Pwnc neu uwch, fel arfer â phrofiad o addasrwydd i ymarfer (Cadeirydd);
- un aelod o blith staff academaidd ysgolion y gyfadran sydd â gofynion addasrwydd i ymarfer ac sydd â'r cofrestriad proffesiynol gofynnol i fodloni safonau cyrff proffesiynol;
- ymarferydd allanol sy'n dod o'r proffesiwn perthnasol;
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu enwebai)[3].

Bydd Ysgrifennydd, nad yw'n aelod ond a fydd yn bresennol drwy gydol y trafodion, yn gwasanaethu'r Pwyllgor. Yr Ysgrifennydd fydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai).

Ni fydd aelodau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos neu gysylltiad â'r myfyriwr. Ni fydd cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr wedi cefnogi'r myfyriwr o'r blaen yn ystod yr achos.

Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael gwybod am gyfansoddiad y Pwyllgor cyn i'r ddogfennaeth gael ei dosbarthu a bydd yn cael y cyfle i godi unrhyw bryderon mewn perthynas â'r aelodaeth, er enghraifft os oes ganddo sail i ystyried y gallai aelod fod yn rhagfarnllyd.

Mewn amgylchiadau lle mae pob aelod o'r Pwyllgor wedi arfer ei bleidlais gydgynghorol a lle mae cyfartal, y Cadeirydd fydd â'r bleidlais fwrw.

Swyddogaethau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

4.33 Swyddogaethau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yw:

a) Ystyried achosion myfyrwyr sydd wedi ymrestru ar gwrs sy'n arwain yn uniongyrchol at gymhwyster proffesiynol neu anodi/cofrestru pellach sy'n rhoi'r hawl i ymarfer proffesiwn penodol, a gyfeirir ar y naill neu'r llall o'r seiliau canlynol:

   - unrhyw ymddygiad a all fwrw amheuaeth ar addasrwydd myfyriwr i gael ei dderbyn i'r proffesiwn hwnnw ac i ymarfer y proffesiwn hwnnw, gan gynnwys camymddygiad academaidd, neu
   - unrhyw broblem iechyd, a allai godi amheuaeth ynghylch addasrwydd myfyriwr i gael ei dderbyn i'r proffesiwn hwnnw neu gael anodi/cofrestru pellach ac ymarfer y proffesiwn hwnnw.

b) Clywed apeliadau gan fyfyrwyr y gwrthodwyd cadarnhad o'u datganiad o gymeriad da a/neu iechyd da neu debyg.

c) Ystyried adroddiadau gan Swyddogion Ymchwilio.

d) I sefydlu, hyd y gellir, ffeithiau yr achos.

Canlyniadau posibl

4.34 Ar ôl ystyried yr achos, gall y Pwyllgor:

[3] Bydd cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr yn annibynnol ac ni fydd ganddo unrhyw wybodaeth flaenorol am eich achos

a) Penderfynu nad oes achos i'w ateb.

b) Caniatáu i'r myfyriwr barhau â'r cwrs dan oruchwyliaeth agos a/neu amodau penodedig.

c) Rhoi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol. Bydd y rhybudd ysgrifenedig ffurfiol yn cael ei gadw ar ffeil y myfyriwr am gyfnod penodol a gellir gwneud sylwadau arno mewn unrhyw eirda a ddarperir.

d) Rhoi rhybudd ysgrifenedig terfynol Bydd y rhybudd ysgrifenedig terfynol yn cael ei gadw ar ffeil y myfyriwr am gyfnod penodol a gellir gwneud sylwadau arno mewn unrhyw eirda a ddarperir.

e) Gohirio astudiaethau'r myfyriwr am gyfnod penodol.

f) Mynnu bod astudiaethau'r myfyriwr ar gwrs sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol neu anodi/cofrestru pellach yn cael eu terfynu ond bod y myfyriwr yn gallu:

- trosglwyddo ei gredyd i gwrs arall, ar yr amod ei fod wedi bodloni unrhyw feini prawf mynediad penodedig a bod arweinydd y cwrs sy'n derbyn, mewn cysylltiad â chynrychiolydd y gyfadran, wedi cynnal yr ymarfer mapio priodol. Cefnogir y myfyriwr gan y gyfadran yn y broses hon;
- gwneud cais i gael ei dderbyn fel newydd-ddyfodiaid drwy'r gweithdrefnau arferol.

Ni fydd y myfyriwr yn gallu trosglwyddo ei gredyd i gyrsiau penodol, gan gynnwys y rheini sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau a Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyrsiau sy'n arwain at anodi/cofrestru pellach. Bydd penderfyniad y Pwyllgor yn cael ei gyfleu i staff sydd angen y wybodaeth i wneud penderfyniad ar drosglwyddo/derbyn.

g) Ei gwneud yn ofynnol bod astudiaethau'r myfyriwr ar y cwrs yn cael eu terfynu a bod ei ymrestriad fel myfyriwr yn dod i ben. Lle nad yw'r Cadeirydd yn aelod o'r tîm Gweithredol, bydd y sancsiwn hwn yn cael ei gadarnhau gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai).

4.35 Os mai penderfyniad y Pwyllgor yw atal neu derfynu astudiaethau myfyriwr rhyngwladol ar fisa Haen 4 rhaid hysbysu'r Pennaeth Cydymffurfiaeth ar unwaith gan fod y sancsiynau hyn yn ddarostyngedig i reoliadau fisa Haen 4.

4.36 Lle caniateir i ymrestriad barhau ar gwrs dan amodau penodedig bydd y gyfadran yn monitro cynnydd ac yn adrodd am unrhyw fethiant i fodloni'r amodau i Ysgrifennydd y Pwyllgor ac, yn achos myfyrwyr rhyngwladol ar fisa Haen 4, y Rheolwr Cydymffurfiaeth Gwybodaeth.

4.37 Dim ond ar ôl i gyfnod y cais am adolygiad ddod i ben y bydd sancsiynau, ac eithrio ataliad a diarddel, yn cael eu gosod.

4.38 Gall unrhyw achos tebyg o drosedd debyg, neu fethiant i gydymffurfio â sancsiwn a osodwyd gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, arwain at sancsiwn mwy llym.

4.39 Gweler hefyd y Weithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Achosion o Gamymddygiad Myfyrwyr a'r Weithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Pwyllgorau Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer.

Hysbysu cyrff proffesiynol/awdurdodau lleol/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

4.40 Mae rhai cyrff proffesiynol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol eu hysbysu cyn gynted ag y bydd ymchwiliad yn cael ei gychwyn o dan y Weithdrefn hon ac yna rhoi gwybod iddynt am y canlyniad.

4.41 Ar gyfer pob corff proffesiynol arall, unwaith y bydd Gweithdrefn y Brifysgol wedi'i chwblhau, bydd yr unigolyn cofrestredig uchaf yn y gyfadran yn hysbysu'r corff proffesiynol/awdurdod lleol perthnasol o'r canlyniad a gafwyd.

4.42 Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd cyrff proffesiynol hefyd yn mynnu bod elfennau o'r ffeil achos lawn, neu'r ffeil achos lawn, yn cael eu darparu iddynt.

4.43 Mae'n ofynnol i'r Brifysgol adrodd am bryderon difrifol i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gall atgyfeiriad at y DBS ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod ystyried achos o dan y Weithdrefn hon[4].

[4] Mae gwefan gov.uk yn manylu ar ein dyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio: https://www.gov.uk/guidance/making-barring-referrals-to-the-dbs#

Atodiad 1

Cwrs:	**Corff Achredu/Rheoleiddio**
Cyrsiau nyrsio yn arwain at gofrestriad	Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)
Cyrsiau bydwreigiaeth yn arwain at gofrestriad	
MSc/BSc Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (pob llwybr)	
MSc/BSc Astudiaethau Iechyd Cymunedol (pob llwybr)	
Dychwelyd i Ymarfer	
Rhagnodi V100 a V150	
Rhagnodi Annibynnol	Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), Cyngor Fferyllol Cyffredinol
Meistr Ceiropracteg	Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol (GCC)
Gwaith cymdeithasol	Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW)
BSc (Anrh) Seicoleg gyda Dadansoddi Ymddygiad	Bwrdd Ardystio Dadansoddwyr Ymddygiad (BACB)
MSc Dadansoddi Ymddygiad a Therapi	
PG Dip Ymarfer a Oruchwylir Dadansoddi Ymddygiad	
BSc Cwnsela Systemig	Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP)
MSc Seicotherapi Systemig	Y Gymdeithas Therapi Teuluol ac Ymarfer Systemig (AFT)
PgD Ymarfer Systemig mewn Seicotherapi	Y Gymdeithas Therapi Teuluol ac Ymarfer Systemig (AFT)
MA/PGDip Cwnsela a Seicotherapi Integreiddiol	Lefel Dip Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP)
MSc/PGDip Seicotherapi Gwybyddol Ymddygiadol	
MSc Therapi Chwarae	Cymdeithas Therapyddion Chwarae Prydain (BAPT)
MA Seicotherapi Celf	Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
MA Therapi Cerdd	
Tystysgrif Ôl-raddedig Sgiliau Therapi Gwybyddol Ymddygiadol Tystysgrif Ôl-raddedig Sgiliau Cwnsela Integredig	Gofyniad mynediad ar gyfer MA Cwnsela a Seicotherapi Integreiddiol ac MSc Seicotherapi Gwybyddol Ymddygiadol - Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain
Cyrsiau Addysgu gyda SAC	Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru)
UCert Datblygiad Proffesiynol Pellach ar gyfer Athrawon sy'n Dychwelyd a Chyflenwi	Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru)

PcET Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg a Hyfforddiant (PcET)	Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru)
PcET Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg a Hyfforddiant (PcET)	Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru)
PcET Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg a Hyfforddiant (PcET)	Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru)
BA (Anrh) Gwaith Ieuenctid a Chymuned	Cymeradwyaeth broffesiynol gan Bwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru
BA (Anrh) Gwaith Ieuenctid a Chymuned (Cyfiawnder Ieuenctid)	Cymeradwyaeth broffesiynol gan Bwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru
MA/PgD Gweithio i Blant a Phobl Ifanc (Gwaith Ieuenctid - Ieuenctid Cymwys Cychwynnol)	Cymeradwyaeth broffesiynol gan Bwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru
BA (Anrh) Addysg ac Ymarfer Blynyddoedd Cynnar	Gofal Cymdeithasol Cymru
Doethuriaeth Broffesiynol mewn Seicoleg Cwnsela (D Psych)	Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a'r Cyngor Proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HCPC)
Diploma PG AAA/ADY (Anawsterau Dysgu Penodol)	Cymdeithas Dyslecsia Prydain
BA Cwnsela ac Ymarfer Therapiwtig	Ceisio achrediad gyda Chymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP)
Cert HE Astudiaethau Cwnsela	Llwybr mynediad i'r BA Cwnsela ac Ymarfer Therapiwtig, sy'n ceisio achrediad gyda Chymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP)
Gradd Sylfaen Nyrsio Milfeddygol	Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS)
BSc (Anrh) Ffisiotherapi	Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion (CSP) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
BSc (Anrh) Ymarferydd Adran Llawdriniaeth	Coleg Ymarferwyr Adrannau Llawdriniaeth (CODP) (cymeradwyaeth) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
BSc (Anrh) Therapi Galwedigaethol	Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
Cert HE Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd	Llwybr mynediad i flwyddyn gyntaf y radd nyrsio